Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

20 Awst 2021

Annwyl Jane,

Rydym yn rhannu eich pryder am y sefyllfa sy'n datblygu yn Afghanistan. Rydym yn cytuno bod yn rhaid i Gymru chwarae ei rhan yn yr ymateb dyngarol yn enwedig o ran cefnogi ffoaduriaid o Afghanistan.

Byddem yn croesawu pe gallech ar y cyfle cynharaf wneud datganiad ar y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ffoaduriaid o Afghanistan. Mae gennym nifer o gwestiynau penodol:

- Faint o ffoaduriaid o Afghanistan yr ydych chi'n rhagweld y rhoddir noddfa iddynt yng Nghymru, ac a oes llinell amser ar gyfer eu hailsefydlu?
- Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddigonolrwydd y trefniadau llety ar gyfer ffoaduriaid sy'n cyrraedd y DU, yn enwedig yng ngoleuni marwolaeth drasig plentyn o Afghanistan yn Sheffield yn gynharach yr wythnos hon?
- A yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r cyllid ychwanegol sydd ei angen gan Lywodraeth y DU, fel y disgrifir yn eich sylwadau i'r BBC?
- Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer yr uwchgynhadledd rhwng pedair gwlad y DU, a gadarnhawyd gan Brif Weinidog y DU i Senedd y DU ar 18 Awst?
- Faint o awdurdodau lleol Cymru sydd wedi cynnig eu cefnogaeth, ac a allwch chi roi manylion am y mathau o gefnogaeth sydd wedi'u cynnig gan bob awdurdod lleol?
- Sut mae cynlluniau i gefnogi ffoaduriaid o Afghanistan yn cymharu â'r gefnogaeth a gynigiwyd i ffoaduriaid o Syria yn 2015?
- Beth yw barn Llywodraeth Cymru ar y meini prawf o ran cymhwysedd ar gyfer blaenoriaethu cefnogaeth i ffoaduriaid o Afghanistan, ac a ydych chi'n cefnogi safbwynt Llywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i fenywod a merched?

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'n llythyr cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd yn debygol o archwilio'r materion hyn gyda chi ymhellach yn ein sesiwn graffu arfaethedig ar eich gwaith ar 20 Medi.

Yn gywir,

**Jenny Rathbone AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Senedd Cymru
Welsh Parliament